

Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys hyfforddi ceffylau rasio i fodloni gofynion cytûn. Mae'r hyfforddiant yn debygol o fod naill ai'n glwydi, ffensys neu safleoedd cychwyn. Dylech allu sefydlu lefel bresennol addysg y ceffyl, cadarnhau gofynion gyda'r person priodol, cynllunio a chynnal y rhaglen hyfforddi, ac adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. sefydlu lefel bresennol yr hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio
3. trafod a chadarnhau'r gofynion ar gyfer hyfforddi ceffylau rasio gyda'r person priodol
4. cynllunio hyfforddiant ceffylau rasio i fodloni'r gofynion cytûn
5. hyfforddi'r ceffylau rasio ar bob cyflymder ac yn unol â'r cynllun
6. defnyddio offer yn gywir ac yn ddiogel
7. rhoi adroddiad manwl ar y cynnydd i'r person priodol
8. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i sefydlu lefel bresennol yr hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio
3. sut i gynllunio hyfforddiant ceffylau rasio yn unol â'r gofynion cytûn
4. y mathau o offer sydd yn angenrheidiol ar gyfer y gwaith a'u defnydd cywir
5. sut i hyfforddi ceffylau rasio
6. effeithiau natur, oed a phrofiad ar ymddygiad ceffylau rasio
7. effeithiau ymarfer hyfforddi ar geffylau rasio
8. y mathau o broblemau y gellir dod ar eu traws wrth hyfforddi ceffylau rasio ifanc
9. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Cwmpas/Ystod

Hyfforddi ceffyl rasio gan ddefnyddio un o'r cymhorthion hyfforddi canlynol:

- clwydi
- ffensys
- safleoedd cychwyn

Geirfa

Ceffylau rasio:

- gwastad
- helpa genedlaethol
- o fan i fan

Datblygwyd gan	Lantra
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2017
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANEq315
Galwedigaethau perthnasol	Goruchwylydd Ceffylau
Cyfes/Set	Ceffylau
Geiriau Allweddol	ceffylau; ceffyl; ceffylau rasio; ymarfer
